16. Polisïau Gwisg Ysgol ac Edrychiad Disgyblion

Mae'r bennod hon yn darparu gwybodaeth sy'n ymwneud a pholisïau gwisg ysgol ac edrychiad disgyblion a chyfrifoldebau cyrff llywodraethu yn hyn o beth.

Cefndir

1. Ym mis Chwefror 2008, cyhoeddodd Llywodraeth y Cynulliad gylchlythyr canllawiau newydd rhif 006/2008, sef Canllawiau ar gyfer Cyrff Llywodraethu ar Bolisïau Gwisg Ysgol ac Edrychiad Disgyblion. Mae sail y canllawiau yn anstatudol, ond mae wedi'i seilio ar ddeddfwriaeth gysylltiedig.

Cwmpas y canllawiau

2. Mae'r canllawiau'n darparu gwybodaeth ar gyfer cyrff llywodraethu a phenaethiaid ar faterion sy'n ymwneud â gweithredu neu newid polisi gwisg ysgol ac edrychiad disgyblion. Cymerodd le'r canllawiau a arferai fod ar gael a dylai cyrff llywodraethu a phenaethiaid gadw'r canllawiau hyn mewn cof os ydynt yn ystyried gweithredu neu newid eu polisïau.

3. Mae cylchlythyr y canllawiau ar gyfer cyrff llywodraethu ysgolion a phenaethiaid, ac mae'n canolbwyntio ar:

- sicrhau bod sylw priodol yn cael ei roi i sicrhau bod bechgyn a merched yn cael eu trin yn gyfartal ynghyd â disgyblion o wahanol gefndiroedd ethnig a chrefyddol a disgyblion anabl mewn perthynas â pholisïau gwisg ysgol ac edrychiad disgyblion;
- cost;
- rhoi ystyriaeth ymarferol i gyflwyno neu newid polisïau gwisg ysgol ac edrychiad disgyblion;
- ymgynghori â rhieni a disgyblion; a
- y ddarpariaeth yng Nghymru o ran cymorth ariannol ar gyfer rhieni tuag at y gost o brynu gwisg ysgol.

Cyd-destun Cyfreithiol

4. Nid oes deddfwriaeth addysg sy'n rhoi sylw penodol i wisgo gwisg ysgol neu elfennau eraill ar edrychiad disgyblion, fel lliw a steil gwallt, gwisgo gemwaith a cholur. Fodd bynnag, fel rhan o'i gyfrifoldeb am redeg yr ysgol, gall corff llywodraethu nodi rheolau sy'n ymwneud ag edrychiad a gwisg y mae'n ofynnol i ddisgyblion ei gwisgo. Mae'r mwyafrif o ysgolion uwchradd yng Nghymru yn nodi gwisg ysgol ar gyfer disgyblion hyd at 16 oed, ond nid oes gan lawer wisg ysgol ar gyfer disgyblion chweched dosbarth. Mae'r sefyllfa'n fwy cymysg ymysg ysgolion cynradd.

5. Nid yw cylchlythyr y canllawiau yn rhoi cyngor di-ben-draw ar gyfrifoldebau corff llywodraethu mewn perthynas â gwahaniaethu neu hawliau dynol. Mae'n nodi y gall cyrff llywodraethu ystyried ceisio eu cyngor cyfreithiol eu hunain ac ymgynghori â sefydliadau cymunedol a ffydd, rhieni a phlant a'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol os oes ganddynt bryderon am ganlyniadau niweidiol posibl mathau penodol o wisgoedd.

Rheolaeth yr Ysgol

6. Mae Adran 21 Deddf Addysg 2002 yn nodi mai'r corff llywodraethu sy'n gyfrifol am reoli ysgol a gynhelir. Mae'n ofynnol i'r corff llywodraethu reoli'r ysgol gyda golwg ar hyrwyddo safonau uchel o gyrhaeddiad addysgol. Mae Adran 175 Deddf Addysg 2002 yn mynnu bod cyrff llywodraethu yn ymarfer eu swyddogaethau o ran deddfwriaeth addysg mewn perthynas â rheoli'r ysgol gyda golwg ar ddiogelu a hyrwyddo lles plant sy'n ddisgyblion yn yr ysgol.

7. Mae Rheoliadau Llywodraethu Ysgolion (Cylch Gorchwyl) (Cymru) 2000 a wnaed o dan Adran 38 o Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998 yn rhoi dyletswydd ar gyrff llywodraethu a phenaethiaid i ymarfer eu cyfrifoldebau gyda'r angen i:

a. ddileu gwahaniaethu anghyfreithlon ar sail hil a rhyw; a

b. hyrwyddo cyfle cyfartal a chysylltiadau da rhwng pobl o wahanol grwpiau hiliol a rhwng dynion a menywod.

8. Fodd bynnag, nid yw'r dyletswyddau a nodir ym mharagraff 7(a) a (b) yn atal y corff llywodraethu rhag cymryd mesurau priodol i sicrhau cymeriad crefyddol yr ysgol. Mae'r grym i gyflwyno polisi gwisg ysgol wedi'i gynnwys yn Adran 61(1) o Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998 (i gael ei disodli gan Adran 88 o Ddeddf Addysg ac Arolygiadau 2006 o fis Ionawr 2010). Er nad yw'r adran hon yn ymwneud yn benodol â gwisgoedd ysgol, mae'n ddigon cyffredinol i'w cynnwys. Mae'n rhoi dyletswydd ar gyrff llywodraethu i sicrhau bod yr ysgol yn cydymffurfio â pholisïau sydd wedi'u llunio i hyrwyddo ymddygiad da a disgyblaeth.

9. Hefyd, mae adran 61(4) o Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998 (i gael ei disodli gan Adran 80 o Ddeddf Addysg ac Arolygiadau 2006 o fis Ionawr 2010), yn rhoi dyletswydd ar y pennaeth i bennu'r mesurau (gan gynnwys rheolau a darpariaethau ar gyfer eu gorfodi) sydd i'w cymryd gyda golwg ar hyrwyddo disgyblaeth ymysg disgyblion, rhoi'r parch dyledus i awdurdod, annog ymddygiad da a pharch at eraill a sicrhau ymddygiad o safon dderbyniol.

10. Mae'n ofynnol yn ôl Adran 61(4) o Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998 bod unrhyw fesur a gyflwynir gan y pennaeth o dan yr adran honno yn cael ei gyflwyno ganddo ef neu hi ar ffurf dogfen ysgrifenedig. Dylai pawb yn yr ysgol a rhieni a disgyblion yn yr ysgol gael gwybod am y ddogfen. Mae hefyd yn ofynnol i'r pennaeth gymryd camau unwaith yn ystod pob

blwyddyn ysgol i ddod â'r ddogfen i sylw disgyblion, eu rhieni a phawb sy'n cael eu cyflogi neu'n cyfrannu at waith yn yr ysgol.

11. O dan Adran 61(4) o Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998 mae'n rhaid i bennaeth bennu mesurau (gan gynnwys llunio a gorfodi rheolau) gyda golwg ar:

- hyrwyddo ymysg disgyblion, hunanddisgyblaeth a rhoi parch dyledus i awdurdod;
- sicrhau bod safon ymddygiad disgyblion yn dderbyniol;
- annog ymddygiad da a pharch at eraill ar ran y disgyblion ac, yn benodol, atal pob ffurf ar fwlio. Felly, mae'n rhaid i gorff llywodraethu sicrhau os yw polisi gwisg ysgol neu edrychiad disgyblion yn cael ei lunio, ei addasu neu ei weithredu nad oes unrhyw sail yn cael ei chreu ar gyfer bwlio; a
- rheoleiddio ymddygiad disgyblion fel arall.

Deddfwriaeth Gydraddoldeb

12. Mae nifer o ddarpariaethau statudol wedi'u cynnwys mewn deddfwriaeth gydraddoldeb a all effeithio ar bolisïau gwisg ysgol ac edrychiad disgyblion ac y mae'n rhaid i gyrff llywodraethu a phenaethiaid eu hystyried, er mwyn peidio â gwahaniaethu'n anghyfreithlon ar sail rhyw, hil, crefydd neu gred ac anabledd. Nodir y rhain ar ddiwedd y Bennod hon (gweler hefyd Bennod 9, Cyfle Cyfartal a Llywodraethwyr Ysgol).

13. Y pwynt hanfodol yw y dylai cyrff llywodraethu weithredu'n deg ac yn rhesymol wrth ddewis neu adolygu eu polisïau gwisg ysgol ac edrychiad disgyblion.

Ymgynghori

14. Wrth ystyried cyflwyno polisïau gwisg ysgol ac edrychiad disgyblion newydd neu newidiadau i bolisïau cyfredol ar wisg ysgol ac edrychiad disgyblion, yn unol ag egwyddorion arferion da, mae LlCC yn disgwyl i gyrff llywodraethu ymgynghori'n eang â disgyblion presennol a rhieni/gofalwyr a darpar ddisgyblion a rhieni/gofalwyr, yn arbennig gan y gallai newid arwain at gostau ychwanegol. Dylai'r ymgynghori hefyd gynnwys cynrychiolwyr gwahanol grwpiau disgyblion yn y gymuned ehangach, gan ofalu ei bod yn nodi arweinwyr cymunedol sy'n cynrychioli grwpiau lleiafrifoedd ethnig a chrefyddol (mae amlinelliad o'r mathau o faterion gwisg a allai fod yn berthnasol i bobl sy'n arddel rhai crefyddau wedi'i gynnwys yn y cylchlythyr) yn ogystal â grwpiau sy'n cynrychioli disgyblion ag anghenion addysgol arbennig neu anableddau.

15. Hefyd, mae gan ddisgyblion yr hawl i leisio barn ar benderfyniadau sy'n effeithio arnynt a dylanwadu arnynt. I gynorthwyo disgyblion ac ysgolion, mae Llywodraeth y Cynulliad wedi llunio Rheoliadau Cynghorau Ysgol (Cymru) 2005, sy'n ei gwneud yn ofynnol i bob ysgol gynradd a gynhelir (ac eithrio ysgolion meithrin a babanod), ysgolion uwchradd ac arbennig yng Nghymru sefydlu cyngor ysgol. Mae Cylchlythyr Cynulliad Cenedlaethol Cymru Rhif 42/2006 - Canllawiau i Gyrff Llywodraethu ar Sefydlu a Gweithredu Cynghorau Ysgol - yn cynghori mai gwisg ysgol yw un o'r materion y dylid gofyn i gyngor ysgol eu hystyried yn ei gyfarfodydd, ac mewn ymgynghoriad â chorff disgyblion yr ysgol.

Cost Gwisg Ysgol

16. Mae Llywodraeth y Cynulliad yn cydnabod y gall gwisg ysgol ac eitemau eraill sy'n rhaid eu prynu i gydymffurfio â pholisi gwisg ysgol fod yn faich ariannol, yn enwedig ar deuluoedd incwm isel a mawr.

17. O ganlyniad, wrth gyflwyno gofynion gwisg ysgol newydd a/neu ystyried newidiadau i ofynion gwisg ysgol, mae LlCC yn disgwyl i gyrff llywodraethu roi blaenoriaeth uchel i'r costau. Ni ddylai'r un wisg ysgol fod mor ddrud fel bod disgyblion neu eu teuluoedd o'r farn na allant wneud cais i gael eu derbyn i ysgol benodol neu ei mynychu.

18. Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn annog cyrff llywodraethu i roi ystyriaeth i'r ffaith bod gwisgoedd ysgol ar gael yn eang wrth iddynt ystyried eu trefniadau ar gyfer cyflenwyr gwisg ysgol. Cynhaliodd y Swyddfa Masnachu Teg (OFT) adolygiad canfod ffeithiau yn 2006 o arfer rhai ysgolion yn y DU o fynnu bod rhieni yn prynu gwisg ysgol gan fanwerthwyr penodol neu gan yr ysgol ei hun. Datgelodd yr adolygiad hwn bod trefniadau cyfyngedig o'r fath 23% yn ddrutach ar gyfartaledd na manwerthwyr gwisg ysgol yn gyffredinol a 150% yn ddrutach nag archfarchnadoedd.

Cwynion

19. Dylid ymdrin â chwynion am godau/polisïau gwisg ysgol ac edrychiad disgyblion yn unol â gweithdrefn gwyno'r corff llywodraethu.

Peidio â Chydymffurfio â Pholisi Gwisg Ysgol ac Edrychiad Disgyblion

20. Os yw'r corff llywodraethu yn gweithredu polisi gwisg ysgol a/neu reolau am edrychiad disgyblion, cyfrifoldeb y pennaeth yw gorfodi'r rhain fel rhan o'i gyfrifoldeb cyffredinol dros gynnal yr ysgol o ddydd i ddydd a chadw disgyblaeth.

21. O dan amgylchiadau cyffredin, nid yw LlCC o'r farn bod gwaharddiad yn ymateb priodol i dorri polisïau gwisg ysgol/edrychiad disgyblion.

22. Mae'r cylchlythyr yn cynnwys cyngor pellach ar y materion hyn.

Y Gyfraith

Deddf Gwahaniaethu ar sail Rhyw 1975
Deddf Cysylltiadau Hiliol 1976
Deddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd 1995
Deddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998
Deddf Hawliau Dynol 1998
Rheoliadau Llywodraethu Ysgolion (Cylch Gorchwyl) (Cymru) 2000
Deddf Addysg 2002
Deddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd 2005
Rheoliadau Cynghorau Ysgol (Cymru) 2005
Deddf Cydraddoldeb 2006
Ddeddf Addysg ac Arolygiadau 2006, Adran 88, (o fis Ionawr 2010)

Canllawiau

Canllawiau ar gyfer Cyrff Llywodraethu ar Bolisïau Gwisg Ysgol ac Edrychiad Disgyblion
Cylchlythyr Rhif 006/2008 Llywodraeth y Cynulliad
Y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol (ECHR)
Parchu Eraill: Canllawiau Gwrth-fwlio – Cylchlythyr Rhif 23/2003 Cynulliad Cenedlaethol Cymru.
Canllawiau i Gyrff Llywodraethu ar Sefydlu a Gweithredu Cynghorau Ysgol - Cylchlythyr Rhif 42/2006 Cynulliad Cenedlaethol Cymru